# DOWNMAN, JOHN (1750 - 1824), paentiwr

**Enw:** John Downman
**Dyddiad geni:** 1750
**Dyddiad marw:** 1824
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** paentiwr
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth
**Awdur:** Thomas Mardy Rees

Ganwyd yn sir Ddinbych (nid yn Nyfnaint fel y dywed rhai) yn 1750. Bu'n astudio yn y ' Royal Academy Schools,' 1769, ac o dan Syr Benjamin West; fe'i gwnaethpwyd yn A.R.A. yn 1795. Yr oedd yng Nghaergrawnt yn 1777 yn paentio lluniau personau, yn Plymouth yn 1806, ac yn Exeter, 1807-8. Priododd ferch William Jackson, organydd eglwys gadeiriol Exeter. Dychwelodd i Lundain i fyw, bu wedyn yn byw yng Nghaer, ac, yn olaf oll, yn Wrecsam. lle yr oedd ei ferch yn byw (bu hi farw 1840). Gweithiai mewn olew a dyfrliw. Dyma rai o'i luniau: ' A lady at work,' ' Death of Lucretia,' ' Rosalind.' Ysgythrodd Bartolozzi rai o'i ddarluniau, e.e. lluniau'r Duchess of Devonshire, Lady Duncannon, a Mrs. Siddons. Bu farw 24 Rhagfyr 1824 yn Wrecsam.

## Awdur

**Y Parchedig Thomas Mardy Rees**, (1871 - 1953)

## Ffynonellau

Michael Bryan, *Bryan's dictionary of painters and engravers*

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 17497318

Wikidata: Q2662652

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu